

WHAT ARE WE DOING NOW? / BETH RYDYM YN EI WNEUD NAWR?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

ENVIRONMENTAL SURVEYS

The project team are continuing with a range of environmental surveys to develop environmental mitigation and enhancement measures.

You may have noticed equipment in the study area, collecting data on ecological habitats, noise levels, air quality, and even geological conditions.

AROYLGON AMGYLCHEDDOL

Mae tîm y prosiect yn parhau i gynnal amrywiaeth o arolygon amgylcheddol er mwyn datblygu mesurau lliniaru a gwella amgylcheddol.

Efallai i chi sylwi ar offer yn ardal yr astudiaeth sy'n casglu data ar gynefinoedd ecolegol, lefelau sŵn, ansawdd yr aer a hyd yn oed amodau daearegol.

DESIGN DEVELOPMENT

With your feedback we continue to develop our proposals for the new section of motorway, reclassification of the existing M4 and cycling and walking measures ready for consideration at the anticipated Public Local Inquiry.

DATBLYGU'R DYLUNIAD

Gyda'ch adborth, rydym yn parhau i ddatblygu ein cynigion ar gyfer y rhan newydd o'r draffordd, ailddosbarthu llwybr presennol yr M4 a mesurau seiclo a cherdded yn barod i'w hystyried yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus disgwylidig.

STAKEHOLDER CONSULTATION

We have already engaged with many stakeholders including land owners, environmental organisations, community groups, businesses, local authorities, access groups and other organisations.

For example, feedback is helping us to develop proposals for pedestrians, cyclists and equestrians in terms of maintaining, replacing or improving their infrastructure (such as footpaths, cycle ways and bridleways).

YMGYNGHORI Â RHANDDEILIAID

Rydym eisoes wedi cysylltu â llawer o randdeiliaid gan gynnwys tirfeddianwyr, sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol, busnesau, awdurdodau lleol, grwpiau mynediad a sefydliadau eraill.

Er enghraifft, mae'r adborth a gawn yn ein helpu i lunio cynigion ar gyfer cerddwyr, seiclwyr a marchogion o ran cynnal, disodli neu wella'r seilwaith a ddefnyddir ganddynt (fel llwybrau troed, llwybrau seiclo a llwybrau ceffylau).

LAND / ACCESS

Earlier this year 'Land Interest Questionnaires' were sent to around 450 people in the vicinity of the new section of motorway.

Our Public Liaison Officer Brian Greaves is meeting and assisting landowners wherever necessary.

These information exhibitions are also seeking your feedback on how we are proposing to deal with lands matters such as side roads and local access.

TIR / MYNEDIAD

Yn gynharach eleni, anfonwyd 'Holiaduron Buddiant Tir' i tua 450 o bobl yng nghyffiniau'r rhan newydd o'r draffordd.

Mae ein Swyddog Cyswllt y Cyhoedd, Brian Greaves, yn cyfarfod â thirfeddianwyr ac yn eu helpu pan fo angen.

Mae'r arddangosfeydd gwybodaeth hyn hefyd yn ceisio adborth gennych ynghylch sut rydym yn cynnig delio â materion yn ymwneud â thir fel ffyrdd ymyl a mynediad lleol.